TAFLUNIO FFILM AR Y LLEUAD

27 Ionawr 2003

Bydd Rêl Institiwt yn dangos ffilm erioed wedi'i weld o'r blaen, am y tro cyntaf erioed, ar ochr dywyll y lleuad ar Ionawr 27 2003.

Mae'r ffilm, yn ôl bob sôn wedi'i saethu yn gyfrinachol gan Pavel I. Belyayev yn ystod ymdaith Voskhod 2 yn 1965, yn cael ei ddangos fel rhan o 'Gwyl Pictiwrs Cymru'.

Mae bodolaeth y ffilm 'Super 8' wedi cael ei wadu yn rheolaidd gan y 'Russian Aviation and Space Agency' ac y 'Military Space Forces' (etifeddion rhaglen gofod Rwsia).

Doedd yr awgrymiadau fod gan Stanley Kubrick (cyfarwyddwr '2001: A Space Odyssey') gopi o'r ffilm heb eu cadarnhau yn ystod ei oes.

Doedd Belyayev, cynhychydd ffilm amatur a gofodwr ar daith Voskhod 2, erioed wedi gwadu nag cadarnhau ei ran yn y ffilmiau. Doedd heb sôn am gynnwys y ffilmiau, ond mae sibrydion o gwmpas y gallant godi cryn gywilydd ar awdurdodau y Sofietwyr.

Mewn cyd-weithrediad gyda'r 'Kazakhstan League for Historical Rectification', bydd Rêl Institiwt yn dangos y ffilm am y tro cyntaf erioed yn y cysawd heulol.

Yn y digwyddiad digyffelyb yma, bydd Rêl Institiwt yn defnyddio taflunydd 'Super 8' wedi'i ddatblygu yn arbennig, i geisio fod y cyntaf i gyrraedd gwyneb y lleuad gyda golau seliwloid.

Hefyd fel rhan o'r noson o adloniant gofodol bydd pennod glasurol o'r gyfres deledu cwlt yr 1980au 'Button Moon', hefyd 'The Clangers - a Welsh Tragedy' ffilm ddogfen newydd yn archwilio marwolaeth araf y pypedau gwlan wrth iddynt lwydo mewn sied yng ngwaelod gardd Ceintaidd.

Mae Rêl Institiwtwyr rheolaidd yn cael eu atgoffa i beidio â mynychu Neuadd Goffa Betws-y-Coed ar gyfer y digwyddiad hwn ond yn hytrach i edrych ar y lleuad.

Bydd y gofod yn agor am 7pm, ffilms i ddechrau am 7.45pm.

- ENDS -

Nodyn i'r Golygydd

Rêl Institiwt yw 'Cymdeithas Ffilm Gorau y DU' BFFS 2002

Gwefan : www.realinstitute.org

Am wybodaeth pellach i'r wasg cysylltwch: Iwan +44 (0)1492 641693

T +44 (0)1492 641693 **F** +44 (0)870 831 7073 **E** press@realinstitute.org

Ymholiadau cyffredinnol: Rel Institiwt, Ivanhoe, Woodlands, Conwy LL32 8LT / +44 (0)1492 573518